

# **Comisiwn Ystadegau Statistics Commission**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**

**ANNUAL REPORT 2000-01**



# Comisiwn Ystadegau

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

Cefndir .....	2
Cyd-destun a chyfeiriad strategol.....	3
Pwy yw'r Comisiynwyr? .....	5
Adeiladu cysylltiadau â chyfranogwyr.....	6
Rhaglen archwiliad/ymchwil fewnol .....	7
Materion eraill a ystyriwyd .....	10
Yr angen am ddeddfwriaeth ystadegol.....	11
Côd arferion Ystadegau Gwladol .....	11
Rhaglen Lefel Uchel ac Adolygiadau Ansawdd Ystadegau Gwladol.....	12
Adnoddau a dulliau gweithio .....	12
Golwg ymlaen .....	13
Rhestr dermau.....	14



## Rhagymadrodd y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol cyntaf y Comisiwn Ystadegau, sy'n ymwneud â'r cyfnod o'n lawnsio ym mis Mehefin 2000 hyd at fis Mawrth 2001.


Sefydlodd Canghellor y Trysorlys, fel y Gweinidog dros Ystadegau Gwladol, y Comisiwn fel rhan o'r trefniadau newydd ar gyfer Ystadegau Gwladol, i helpu i sicrhau bod Ystadegau Gwladol yn ddibynadwy ac yn ymateb i anghenion y cyhoedd.

Cawsom ein cymell ganddo i weithredu'n annibynnol o weinidogion a chynhyrchwyr Ystadegau Gwladol. Rydym yn adrodd yn ôl drwyddo ef i'r Senedd a'r cyhoedd, ar adroddiad blynyddol yr Ystadegydd Gwladol ac ar y ffordd yr ydym ni wedi cyflawni'n gorchwyl. Er mwyn rhoi adroddiad prydlon o'n gweithgareddau ni ein hunain, rydym yn adrodd yma ar yr ail beth yna. Yn ddiweddarach eleni byddwn yn gwneud asesiad cytbwys o adroddiad yr Ystadegydd Gwladol sydd, fel y deallwn, yn debygol o gael ei lunio tua'r un adeg â'n adroddiad ni, ond nid ydym yn ei weld cyn ei gyhoeddi.

Mae'n bwysig bod Ystadegau Gwladol yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr, o Lywodraethwr Banc Lloegr i'r disgybl ysgol. Dylent hefyd gymryd i ystyriaeth fuddiannau cyfranogwyr eraill, sy'n amrywio o aelodau o'r cyhoedd a chwmnïau sy'n cyflenwi'r data crai y mae ystadegau wedi eu cynhyrchu ohono, i gyfranogwyr ehangach fel y Senedd. Rydym wedi adrodd yn ôl ar wahân i'r Ysgrifennydd Economaidd i'r Trysorlys ar ein gwaith i adeiladu cysylltiadau gyda chyfranogwyr. Nodwyd gennym y byddem, yn y tymor byrrach o leiaf, yn canolbwyntio ar adeiladu cysylltiadau anffurfiol a deall safbwyntiau'r cyfranogwyr, yn hytrach nag ar adeiladu strwythurau mecanyddol a allai gyfyngu ar ac o bosibl adael allan fuddiannau allweddol sydd heb eu hadnabod eto.

Rydym wedi lawnsio nifer o brosiectau archwilio ac ymchwil mewn meysydd penodol ac wedi ystyried ystod o faterion a godwyd gyda ni, gan nifer o bobl a grwpiau, ac rydym yn trafod y rhain ym mhrif gorff yr adroddiad.

Yn y cyfnod cychwynnol hwn, rydym hefyd wedi chwarae ein rhan i ddatblygu'r rhwydwaith fewnol newydd i Ystadegau Gwladol ar gyfer y Deyrnas Unedig drwyddi draw. Er bod y newidiadau yn gymharol ddiweddar, nid ydym yn credu ei bod yn rhy gynnar i ddechrau ystyried a oes yna angen am ddeddfwriaeth ystadegol. Fel rhan o hyn, mae angen i ni allu ystyried pa mor effeithiol yw côd arferion Ystadegau Gwladol. Roedd yn siom fawr i ni, oherwydd nad yw'r côd wedi ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad eto, nad oeddem yn gallu cyfrannau at ei ddatblygiad na monitro sut yr oedd yn gweithio, fel yr ydym yn llwyr fwriadu gwneud. Rydym yn disgwyl i'r Ystadegydd Gwladol fwrw ymlaen â'r côd yn llawer cyflymach, a ddylai fod yn gonglfaen i'r trefniadau newydd.



# Cefndir

Yn dilyn golwg gyffredinol a chynhwysfawr ar drefniadau'r DU ar gyfer ystadegau swyddogol, lanswyd y fframwaith Ystadegau Gwladol newydd ym mis Mehefin 2000. Roedd y cwmpas gwreiddiol yn dynodi holl gynnyrch ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol a nifer o'r ystadegau o ddiddordeb cyhoeddus oedd yn cael eu cynhyrchu gan adrannau llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig yn Ystadegau Gwladol. Roedd y *Fframwaith ar gyfer Ystadegau Gwladol* yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu newydd, yn cynnwys sefydlu Comisiwn Ystadegau fel pwyllgor gwarchod.

Ein cenhadaeth yw cynorthwyo i wneud yn siwr bod Ystadegau Gwladol yn ddibynadwy ac yn ymateb i anghenion y cyhoedd fel y maen nhw'n datblygu. Rydym yn cynghori ar sicrhau ansawdd a gosod blaenoriaeth i Ystadegau Gwladol ac ar y gweithdrefnau a luniwyd i sicrhau integriti ystadegol. Rydym hefyd yn cynghori Gweinidogion am feysydd o bryder cyffredinol am ansawdd ystadegau swyddogol, fel eu bod yn gallu cymryd y rhain i ystyriaeth wrth bennu blaenoriaethau a gwneud penderfyniadau am Ystadegau Gwladol.

Mae'r Comisiwn yn cael ei benodi gan Ganghellor y Trysorlys, fel y Gweinidog dros Ystadegau Gwladol, ond gyda'r gorchwyl o weithredu'n annibynnol ar Weinidogion a chynhyrchwyr Ystadegau Gwladol, ac o gyflawni ei swyddogaethau mewn dull agored a thryloyw.

Rydym yn adrodd drwy Weinidogion i'r Senedd a'r cyhoedd ar adroddiad blynyddol yr Ystadegydd Gwladol a'r ffordd yr ydym wedi cyflawni'n gorchwyl. Rydym wedi dewis yn ein blwyddyn gyntaf i wneud hyn drwy adroddiadau ar wahân, fel ein bod yn gallu rhoi cyfrif prydlon o'n gweithgareddau ein hunain yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2001, ac yna gwneud asesiad cytbwys o adroddiad blynyddol yr Ystadegydd Gwladol, sydd, yn ôl a ddeallwn, yn debyg o gael ei gyhoeddi tua'r un pryd â'n adroddiad ninnau.

# Cyd-destun a chyfeiriad strategol

Y cymhelliant sylfaenol i'n gwaith yw pwysigrwydd ystadegau dibynadwy mewn cymdeithas ddemocrataidd. Mae angen y rhain i gefnogi busnes llywodraeth, a hefyd i roi i bobl yn gyffredinol ddarlun clir o'r economi a chymdeithas, a'u galluogi nhw i asesu effaith polisiau a gweithredoedd y llywodraeth. Mae Ystadegau Gwladol hefyd yn darparu gwybodaeth hanfodol ar gyfer masnach, diwydiant ac ymchwilwyr ac i gyflawni gofynion rhyngwladol, ac mae'n rhan o'n gwaith ni i asesu a yw'r anghenion defnyddwyr yma yn cael eu deall yn iawn a'u cyfarfod yn effeithiol.

## Mae'r Comisiwn yn gweithio ar ran pob defnyddiwr - er enghraifft

- Mae'r Pwyllgor Polisi Ariannol yn defnyddio ystod eang o ddata economaidd i osod cyfraddau llog.
- Mae epidemiolegwyr yn astudio ystadegau ar farwolaethau babanod i ddeall a mynd i'r afael â'u hachosion.
- Mae llywodraeth leol a chanolog yn defnyddio data poblogaeth i rannu adnoddau a chynllunio gwasanaethau.
- Mae busnesau yn defnyddio ystadegau masnach i ddeall eu marchnadoedd.
- Mae sefydliadau anabledd yn defnyddio arolwg y gweithlu i gael gwybodaeth am brofiad pobl anabl am waith.
- Mae dinasyddion fel defnyddwyr yn defnyddio llawer iawn o ystadegau i farnu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ogystal â chyflwyno darlun o gymdeithas a sut y mae'n newid, mae angen i'r ystadegau a gasglwyd, a'r ffordd y maent yn cael eu casglu a'u cyflwyno, adlewyrchu newidiadau mewn cymdeithas. Ond mae'n rhaid iddynt hefyd gael eu cyhoeddi'n gyson dros amser, fel bod tueddiadau'n dod yn amlwg.

Gall technoleg gwybodaeth a chyfathrebu well a haws ei chael gynnig ffyrdd mwy effeithiol o gasglu, prosesu a dosbarthu data, ond mae hefyd yn newid yr anghenion am ystadegau: i ddechrau, drwy newid disgwyliadau am gael gwybodaeth, fel bod pobl yn disgwyl cael ffigurau manwl dros y rhyngwrwd yn syth er enghraifft; yn ail, mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar gymdeithas a'r economi'n uniongyrchol, ac felly'n newid beth sydd angen ei fesur. Rhaid cynllunio arolygon busnes i wneud yn siwr eu bod yn adlewyrchu twf e-fasnach. Mae angen i arolygon cymdeithasol adlewyrchu'r ffordd y mae mynd ar y rhyngwrwd drwy gyfrifiadur yn y cartref yn rhywbeth sy'n dod yn fwy a mwy o ran o fywyd bob dydd.

Mae disgwyliadau uwch am ryddid gwybodaeth, a'r pwyslais ar hawliau defnyddwyr mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus a masnachol, yn effeithio ar y pynciau o ddiddordeb (ystadegau ar gwynion er enghraifft) ac yn hybu mwy o alw am wybodaeth ar y gwasanaethau a ddarperir, fel amserau aros ysbytai neu ganlyniadau arholiadau ysgolion.

Un o'r newidiadau allweddol eraill mewn cymdeithas sydd ag oblygiadau mawr i Ystadegau Gwladol yw mwy o bwyslais ar ddeall y gwahaniaeth mewn pobl ac ardaloedd. Mae'r angen i ystadegau gynnwys nodweddion unigolion, fel rhyw, cenedl ethnig ac anabledd, yn un rhan o hynny, ond hefyd y sylw mwy ar ddeall gwahaniaethau daearyddol. Mae datganoli wedi creu galw ychwanegol am ddata, nid yn unig mewn cysylltiad â gweinyddiaethau datganoledig, ond hefyd drwy godi ymwybyddiaeth o wahaniaethau rhanbarthol o fewn Lloegr. Mae anghenion

Ilywodraeth leol ei hun a'r pwyslais cynyddol ar ystadegau ardal fechan, yn enwedig, ond nid yn unig, yng nghyd-destun gwaharddiad cymdeithasol, i gyd yn ychwanegu at gymhlethdod yr hyn y mae'n cymdeithas yn ei fynnu gan Ystadegau Gwladol.

Nid yw newidiadau mewn cymdeithas yn arwain at gasglu mwy a mwy o ddata yn unig. Mae sylweddoli baich biwrocratiaeth ar fusnes, a hawliau unigolion (yn cynnwys preifatrwydd), yn golygu bod angen canfod cydbwysedd rhwng y budd i gymdeithas drwyddi draw, neu i rai unigolion, o fwy neu well data, a'r baich i eraill o'i gyflenwi.

Beth mae hyn i gyd yn ei olygu yw bod y galwadau ar y rhai sy'n cynhyrchu Ystadegau Gwladol i ni yn mynd yn fwy a mwy cymhleth; ac mae eu bodloni yn dasg sydd angen barn proffesiynol gofalus ac angen cyson i asesu cyfiawnhad y galwadau yn erbyn y gost o gwrdd â nhw. Rhan bwysig o'n gwaith yw cadw llygad ar allu cynhyrchwyr Ystadegau Cenedalaethol i gadw'r cydbwysedd hwn.

Yr hyn nad yw'n newid yw'r nodweddion sylfaenol y mae'n rhaid i Ystadegau Gwladol eu dangos:

- **integriti;**
- **ansawdd;**
- **perthnasedd/ymatebolrwydd i ddefnyddwyr.**

Dyma'r themâu cyson sy'n rhedeg trwy'n sylwadau.

## Integriti

Mae integriti, ynghyd â'r amgyffrediad o integriti, yn hollbwysig. Mae ymddiriedaeth y cyhoedd nad oes neb yn "chwarae â'r ffigyrau" yn bwysig wrth gwrs, ond mae angen mwy na hynny. Rhaid i'r broses o wneud penderfyniadau ar gasglu a dosbarthu ystadegau fod yn gwbl agored hefyd.

## Ansawdd

Er mwyn ennill ymddiriedaeth, rhaid i ystadegau fod yn ddigon cywir. Nid yw hwn yn safon absoliwt, ac mae gan ddata nifer o ddefnyddiau, weithiau mae angen ffigyrau manwl iawn, dro arall dim ond arwydd o'r tueddiad neu feintiau perthynol. Mae ansawdd yn golygu sicrhau bod gan ddefnyddwyr y wybodaeth i benderfynu a yw'r ffigyrau yn addas i ddiben penodol.

## Perthnasedd

Yn bwysicach na dim, nid oes pwynt cael ystadegau dibynadwy ond amherthnasol. Rhaid i'r data a gesglir gymryd i ystyriaeth anghenion defnyddwyr - pob defnyddiwr, nid y llywodraeth yn unig.

Yn ein trafodaethau cyntaf am y rhain, rydym wedi sylwi, ymhlith ein gilydd a gyda gwahanol gyfranogwyr, tra'n bod i gyd yn cytuno bod y tri yma'n bwysig, bod yna farn wahanol am eu hunion ystyr. Er enghraifft, mae rhai pobl yn defnyddio'r term "integriti" i olygu'r nodweddion hanfodol i gyd yn hytrach na'r syniad penodol o annibyniaeth a rhyddid rhag ymyrraeth fel sydd gennym ni. Nid ydym yn dadlau mai'n defnydd ni yw'r unig un cywir: fel y dywedodd Humpty Dumpty "Pan dwi'n defnyddio gair, mae'n golygu'r hyn dwi eisiau iddo olygu - dim mwy, dim



llai", ond penderfynom y byddai o ddefnydd, yn ein hadroddiad blynyddol cyntaf fel hyn, i gynnig rhai diffiniadau sy'n egluro'r termau, nid am ein bod am orfodi ein hystyr ar eraill, ond fel bod pawb yn deall beth ydym yn ei olygu. Nid ydym wedi ceisio llunio rhestr o dermau ystadegol ond rydym wedi canolbwyntio (gweler tudalennau 14 a 15) ar y geiriau sy'n cael eu defnyddio'n aml mewn trafodaeth ar ystadegau swyddogol, ac mae gan rai o'r rhain ystyr ychydig yn wahanol neu fwy penodol yn y cyd-destun hwn. Ar y llaw arall, nid ydym wedi cyfyngu'n hunain i'r termau a ddefnyddiwyd yn y ddogfen hon.

Fel y mae'r adroddiad hwn yn dangos yn fras, rydym wedi mynd i'r afael â gwahanol bynciau mewn gwahanol ffyrdd a byddwn yn parhau i wneud hynny, er mwyn bod yn addas i'r amrywiaeth o faterion dan sylw ac i weld pa fath o ddull sy'n gweithio orau. Ond mae yna rai egwyddorion cyffredinol sy'n greiddiol i'n dull:

- rhaid i'n cyfraniadau ni fod wedi eu hymchwilio'n drwyadl ac yn gwbl gytbwys. Rydym yn gwrthod ymateb heb astudiaeth ac ystyriaeth lawn i faterion amserol dim ond am eu bod yn amserol;

*(er enghraifft wnaethom ni ddim ymuno â'r ddadl ynglwn â chynnwys blwch ticio i ddangos cenedligrwydd Cymreig ar ffurflen y cyfrifiad pan godwyd y mater yr haf diwethaf, ond byddwn yn edrych ar y materion ehangach o iaith a chenedligrwydd yn y cyfrifiad pan fo rhai canlyniadau ar gael i'w hastudio)*

- credwn mai'n gorchwyl yw gweld bod gan yr Ystadegydd Gwladol y prosesau cywir ar waith, a bod y prosesau yn rhoi'r canlyniadau sydd eu hangen. Ni allwn, ac ni ddylem, wneud ei waith o sicrhau ansawdd ac ymgynghori â defnyddwyr, drosto;

*(er enghraifft, rydym wedi sôn wrtho am ein pryder bod defnyddwyr angen gwell gwybodaeth ar ddibynadwyedd ond nid ydym wedi dangos y ffordd orau i wneud hyn mewn meysydd penodol)*

- rydym yn edrych ar enghreifftiau penodol ond gyda'r nod o ddangos pwyntiau cyffredinol o'r rhain;

*(er enghraifft un o'n rhesymau dros edrych ar Gynllun Canser yr NHS oedd dysgu gwersi ehangach am fonitro gweithredu polisïau)*

## Pwy yw'r Comisiynwyr?

Daw Comisiynwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd, ond mae gennym un peth yn gyffredin: dealltwriaeth dda o faterion ystadegol a gwerth ystadegau dibynadwy mewn trafodaeth ddemocrataidd.

Bu **Sir John Kingman** yn Is-Ganghellor Prifysgol Bryste ers 1985, ond bydd yn gadael yn ddiweddarach eleni i fod yn Gyfarwyddwr Sefydliad Isaac Newton ar gyfer Gwyddorau Mathemategol yng Nghaergrawnt. Mae'n Ystadegydd Siartredig ac yn gyn Lywydd y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol. Bu'n Gadeirydd y Cyngor Ymchwil Gwyddoniaeth a Pheirianneg, ac mae wedi gwasanaethu fel cyfarwyddwr anweithredol IBM (UK) Holdings Ltd, SmithKline Beecham plc a Grwp Technoleg Bryste.

**Sir Kenneth Calman** yw Is-Ganghellor a Warden Prifysgol Durham. Cyn hynny ef oedd Prif Swyddog Meddygol yr Adran Iechyd a Chadeirydd Pwyllgor Gwaith Sefydliad Iechyd y Byd. Cafodd ei hyfforddi fel llawfeddyg ac mae ganddo ddiddordeb arbennig ym maes triniaeth ac ymchwil canser. Ar hyn o bryd ef yw Cadeirydd Sefydliad Dysgu ac Addysgu.

Mae **Colette Bowe** yn gyfarwyddydd anweithredol i Thames Water Utilities, a chyn hynny hi oedd cadeirydd busnes cwmni buddsoddi Erwopeaidd Fleming Asset Management. Mae'n gweithio yn y Ddinas ers 12 mlynedd, yn cynnwys pedair blynedd fel prif weithredwr PIA, rheolydd y Ddinas. Cyn hynny treuliodd 11 mlynedd yn yr Adran Diwydiant a Masnach, lle roedd yn economegydd proffesiynol. Mae hi hefyd yn aelod o Gyngor Coleg y Frenhines Mary.

**Patricia Hodgson** yw Prif Weithredydd y Comisiwn Teledu Annibynnol a chyn hynny roedd yn Gyfarwyddydd Polisi a Chynllunio yn y BBC. Gwasanaethodd am chwe blynedd fel Aelod o'r Comisiwn Monopoliâu a Chyfuniadau (bellach y Comisiwn Cystadleuaeth) a bu'n Gymrawd Cyswllt o Goleg Newnham, Caergrawnt.

**David Rhind** yw Is-Ganghellor a Phennaeth Prifysgol y Ddinas, Llundain. Ar hyn o bryd hefyd mae'n cadeirio adolygiad cenedlaethol o'r gwyddorau cymdeithasol. Mae'n Syrfewr Siartredig, a hyd at 1998 ef oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol Arolwg Ordians, sefydliad mapio cenedlaethol Prydain ac adran o'r llywodraeth. Bu'n Aelod Cyngor o'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ac o'r Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol. Yn y gorffennol, chwaraeodd ran flaenllaw mewn adeiladu cronfeydd data ystadegol pwysig, yn fwyaf arbennig data cyfrifiad.

Mae **Janet Trewsdale** yn Gadeirydd Cyngor Economaidd Gogledd Iwerddon ac yn Uwch Ddarlithydd mewn Economeg ym Mhrifysgol Queen's, Belfast. Mae'n Ystadegydd Siartredig. Mae'n gyn Is-Lywydd y Gymdeithas Ystadegau Frenhinol ac yn aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ystadegau (Gogledd Iwerddon). Am yr 19 mlynedd diwethaf mae wedi cynrychioli'r Gymdeithas ar yr SUC.

Mae **Derek Wanless** yn un o gyfarwyddyddion Northern Rock plc, Busnes yn y Gymuned a Mentrau Nesta Cyf. Ef yw Cadeirydd Sefydliad Hyfforddi Cenedlaethol Gwasanaethau Ariannol, un o Ymddiriedolyddion y Gwaddoliad ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau ac mae wedi cadeirio'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Fusnes a'r Amgylchedd a'r Cyngor Ymgynghorol Cenedlaethol dros Dargedau Addysg a Hyfforddiant. Bu'n gweithio i NatWest am 30 mlynedd ac roedd yn Brif Weithredydd Grwp am 7 mlynedd. Mae ganddo MA mewn Mathemateg o Brifysgol Caergrawnt ac mae'n Ystadegydd Siartredig.

**Martin Weale** yw Cyfarwyddydd y Sefydliad Cenedlaethol i Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ac mae wedi ysgrifennu'n eang ar ystadegau economaidd. Bu'n darlithio mewn Economeg ym Mhrifysgol Caergrawnt, lle roedd yn Gymrawd o Goleg Clare, a chyn hynny, bu'n gweithio yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym Malawi. Mae'n Gymrawd Anrhydeddus o Sefydliad yr Actiwariaid ac yn Drysorydd Ymddiriedolaeth Ymchwil Clefyd Alzheimer.

**Gill Eastabrook** yw prif weithredydd y Comisiwn Ystadegau. Treuliodd y rhan fwyaf o'i gyrfayng Ngwasanaeth Ystadegau'r Llywodraeth fel defnyddiudd a chynhyrhydd ystadegau. Yn fwyaf diweddar, hi oedd pennaeth ystadegau gweithlu yn yr NHS Gweithredol a chyn hynny bu'n gweithio ar dîm arolwg gwariant cyhoeddus yr Adran Iechyd. Mae ganddi MSc mewn Ystadegau o Ysgol Economeg Llundain ac mae'n Ystadegydd Siartredig.

## Adeiladu cysylltiadau â chyfranogwyr

### Dull cyffredinol

Roedd y papur gwyn *Adeiladu ymddiriedaeth mewn ystadegau* yn rhagweld y byddai'r llywodraeth yn gofyn i'r Comisiwn "argymhell i Weinidogion ....ei fecanwaith ei hun ar gyfer ymdrin â buddiannau defnyddwyr a chynhyrchwyr Ystadegau Gwladol...". Er na wnaed unrhyw gais ffurfiol, aethom i mewn i ysbryd hyn, ac adrodd yn ôl i'r Ysgrifennydd Economaidd i'r Trysorlys ym mis Rhagfyr. Bu i ni ymestyn rhyw ychydig ar ein dehongliad o'r dasg i ymwneud â'r ystod llawn o gyfranogwyr mewn Ystadegau Gwladol.

Canfyddodd ein adroddiad dri grwp penodol o gyfranogwyr: defnyddwyr a chynhyrchwyr Ystadegau Gwladol, a darparwyr y data crai y maent wedi eu seilio arno. Roedd yn nodi hefyd bwysigrwydd cyfranogwyr ehangach, y pedwerydd grwp, yn cynnwys y Senedd, cyflogwyr, undebau llafur neu gymdeithasau proffesiynol ac yn y pen draw, y cyhoedd.

Bu i ni ganolbwyntio ar adeiladu cysylltiadau anffurfiol i ddechrau, yna ystyried yr angen am strwythurau mwy ffurfiol yn y tymor hirach a chymryd barn cyfranogwyr i ystyriaeth.

Ceir copi o'n adroddiad llawn ar ein safon [www.statscom.org.uk](http://www.statscom.org.uk), y ddogfen 'Adroddiadau Comisiwn', dyddiad Rhagfyr 2000.

## **Cysylltiadau â gweinyddiaethau datganoledig**

Un pwnc trafod na chafodd ei ddatrys yn iawn pan gafodd Ystadegau Gwladol ei lawnsio oedd y modd y dylem weithredu mewn perthynas â'r gweinyddiaethau datganoledig. Roeddem yn teimlo ei bod yn iawn gadael i'r gweinyddiaethau eu hunain "ddod â gofyn" a phenderfynu sut yr oeddynt yn gweld ein rhan ni, ond rydym yn falch o ddweud bod y tri ohonynt wedi dod atom erbyn hyn. Roeddem wrth ein bodd yn ymateb i'w gwahoddiadau y dylem ymwneud â nhw fwy neu lai yn yr un ffordd ag yr ydym yn gwneud gyda Llywodraeth y DU a'r Senedd.

## **Rhaglen archwiliad/ymchwil fewnol**

Roeddem yn sylweddoli na fyddem yn gallu gwneud llawer o waith sicrhau ansawdd yn ein blwyddyn gyntaf. Ond roeddem yn awyddus i gychwyn rhyw fath o brosiectau "archwilio" mewn rhyw ffordd mewn meysydd penodol a fyddai'n rhoi casgliadau pendant o ran eu hunain, ond a fyddai hefyd yn caniatáu i ni brofi gwahanol ddulliau o weithio. Dewiswyd pum pwnc a oedd yn bwysig o ran eu hunain ond a oedd hefyd yn cynnig amrywiaeth o waith cyferbynniol. Er enghraifft, gallai'n swyddfa ysgrifenyddol archwilio rhai o'r rhain, roedd eraill angen mewnbwn gan gomisiwynwr annibynnol ac roedd eraill angen mewnbwn gan arbenigwyr allanol.

## **Dibynadwyedd Ystadegau Gwladol**

Nodwyd yn ein trafodaethau cynharach ei bod yn bwysig cael y rhifau'n gywir, ond mai ychydig iawn o ystadegau a fydd yn 100% fanwl gywir. Yr hyn sy'n bwysig yw bod defnyddwyr yn gallu deall cyfyngiadau'r data o'u blaen, a phenderfynu a yw'n addas i'w dibenion. Rydym wedi trafod gyda'r Ystadegydd Gwladol y pwysigrwydd a roddwn i hyn.

Bydd cynnwys gwybodaeth dda ar ddibynadwyedd ar draws holl ystod cynnyrch Ystadegau Gwladol yn dasg fawr. Rydym wedi gofyn i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol sefydlu'r llinell sail, efallai ar gyfer is-set o ganlyniadau i ddechrau. Maent wedi cwblhau cam cychwynnol - cynhyrchu rhestr lawn o holl ganlyniadau Ystadegau Gwladol - ym Mawrth 2001; ac maent yn symud ymlaen o hyn bellach yn dilyn trafodaethau gyda ni.

Rydym yn siomedig nad oedd yn bosibl iddynt wneud cynnydd mor gyflym ag yr oeddent wedi ei obeithio'n wreiddiol. Rydym yn gobeithio y bydd digon o adnoddau ar gyfer y gwaith dilynol yn y misoedd sydd i ddod.

## **Ystadegau Gwladol i fonitro Cynllun Canser yr NHS**

Roedd sawl rhesem dros ddewis hwn fel un o'r meysydd cyntaf ar gyfer astudiaeth gwmpas i asesu'r achos am waith pellach mwy sylweddol. Mae yna lefelau uchel o bryder am ofal canser a sylweddoliad bod angen i bolisi gael ei wreiddio mewn ffeithiau. Roedd yr angen i gydbwysu prosiectau ystadegau mwy economaidd eu naws gydag un o'r maes cymdeithasol yn gymhelliant arall, fel oedd yr awydd am waith gyda'r posibilrwydd o ddysgu gwersi ehangach ar ddefnydd Ystadegau Gwladol i fonitro gweithredu polisi. Roedd yr Ystadegydd Gwladol hefyd wedi tynnu sylw'r Comisiwn at y materion cyfrinachedd anodd sy'n ymwneud â chofrestri canser. Roedd y rhain i gyd yn ei wneud yn bwnc blaenoriaeth uchel amlwg ym maes iechyd.

Nid yw'r astudiaeth wedi mynd ymhellach na'r "cyn-gwmpas" neu'r cyfnod cychwynnol oherwydd nid yw rhai dogfennau allweddol yr oeddem wedi gobeithio eu hastudio ar gael bellach tan haf 2001. Roedd yna beth ansicrwydd a oeddem yn mynd i gael gweld y deunydd *Gwasanaeth a Fframwaith Ariannol* allweddol. Fodd bynnag, mae archwiliad cychwynnol o'r Cynllun ei hun, ynghyd â thrafodaethau gyda'r Adran Iechyd a staff y Swyddfa Ystadegau Gwladol, wedi cadarnhau'r rhesymoleg gwreiddiol. Mae dau fater tebygol arall wedi eu canfod:

- gall fod materion yn ymwneud â pha mor gyflym y gall Ystadegau Gwladol ymateb i unrhyw ofynion monitro newydd os nad yw'r rhain yn cael eu canfod yn brydlon. Bydd angen i'r astudiaeth gwmpas gymryd hyn i ystyriaeth;
- yn annibynnol o'r prosiect hwn, tynnwyd ein sylw hefyd at oblygiadau posibl y cytundeb gyda'r sector breifat ar gyfer cyflawnder y data a ddefnyddir i fonitro ansawdd a chanlyniad gofal i gleifion yr NHS. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig i gleifion canser.

## **Defnydd addasiad tymhorol yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol**

Rydym wedi dewis y pwnc hwn yn rhannol oherwydd ei bwysigrwydd cynhenid i nifer sylweddol o ystadegau economaidd, ond hefyd fel enghraifft o bwnc technegol/methodolegol a oedd yn torri ar draws nifer o gynhyrchion Ystadegau Gwladol. Yn wahanol i'n dull arferol o edrych mewn meysydd penodol, neu reit ar draws Ystadegau Gwladol, bu i ni gyfyngu'n hunain i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ei hun. Gwelsom, yn ein trafodaethau cyn-cwmpasu gyda'r SYG, eu bod nhw bron dod ag adolygiad mewnol i ben, felly gohiriwyd ein astudiaeth gwmpas i fis Mai/Mehefin 2001, pryd y byddem yn gallu cymryd i ystyriaeth adroddiadau'r ymarferiad hwnnw. Rydym wedi comisiynu'r Athro Ken Wallis o Brifysgol Warwick i wneud yr astudiaeth gwmpas, ac yna i asesu a fyddai, ar yr olwg gyntaf, diben gwneud astudiaeth sylweddol o'r gweithdrefnau addasu tymhorol sy'n cael eu defnyddio yn yr SYG.

## **Ansawdd amcangyfrifon GDP Rhanbarthol**

Fel ag y crybwyllwyd eisoes, rydym yn gweld bod yr angen a'r pwyslais cynyddol ar ddata islaw lefel Gwladol yn un o'r materion mywaf pwysig i Ystadegau Gwladol ar hyn o bryd. Yn ogystal â dangos bod angen amcangyfrifon wedi eu datgrynhoi, mae hyn yn codi cwestiynau am briodoldeb yr amcangyfrifon sydd gennym yn barod, fel amcangyfrifon ar lefel GDP rhanbarthol. Mae'n bosibl bod defnydd gwreiddiol y rhain yn llai tyngedfennol na'r anghenion presennol. Mae amcangyfrifon GDP rhanbarthol bellach yn cael eu defnyddio mewn ystod eang o gyd-destunau, yn cynnwys dyrannu cronfeydd strwythurol yr UE a thargedau cytundeb gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer twf rhanbarthol, yn ogystal â bod yn bwysig i weinyddiaethau datganoledig.

Rydym yn ymwybodol o dystiolaeth anecdotaidd o bryderon am ansawdd amcangyfrifon GDP rhanbarthol, ac roeddem wedi bwriadu comisiynu'n ymchwil ein hunain i'r maes hwn. Gan bod rhaglen adolygu ansawdd Ystadegau Gwladol wedi nodi hwn fel pwnc ar gyfer 2001-02, fodd bynnag, yn hytrach nag ail-adrodd, byddwn yn gwneud argymhellion ffurfiol ar gwmpas yr adolygiad i'r Ystadegydd Gwladol.

## Archwylio datblygiad Mynegai Cyfartaledd Enillion

Roeddem yn ymwybodol bod y *Review of the Revisions to the Average Earnings Index* a gyhoeddwyd yn 1999 (Adroddiad Turnbull King), y gellir ei weld o dan y teitl hwn yn [www.hm-treasury.gov.uk/siteindex.html](http://www.hm-treasury.gov.uk/siteindex.html), wedi bod yn ddylanwad pwysig ar ddatblygiad y trefniadau Ystadegau Gwladol newydd. Roedd yn gwneud nifer o argymhellion, rhai ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chynhyrchu'r Mynegai ac eraill oedd â goblygiadau ehangach i reolaeth ystadegau swyddogol. Felly gofynnem i'r SYG am adroddiad ar y cynnydd mewn gweithredu'r argymhellion. Er bod cynnydd wedi ei wneud ar nifer dda o'r rhain, mae yna ddau faes arall mwy eang lle mae angen gwneud rhagor.

Roedd nifer o'r argymhellion methodolegol mwy cymhleth angen tipyn o waith datblygu. Rydym yn siomedig nad yw hi wedi bod yn bosibl cwblhau hyn eto, ond rydym yn sylweddol natur yr anawsterau yma, ac rydym wedi gofyn beth yw'r amserlen ar gyfer ei orffen. Byddwn yn dal i fonitro sut mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

Roedd grwp arall o argymhellion yn delio â rheoli gwaith ystadegol. Roeddem yn falch i weld cynnydd da mewn rhai meysydd, fel cryfhau gallu methodolegol y Swyddfa, ac mae'r hyn a welson wedi creu argraff arnom, ond roeddem yn pryderu nad yw rhai o'r argymhellion mwy syml ynglwn â chryfhau trefniadau "arwyddo i ffwrdd" i gyfresi ystadegol, ac i arferion rhyddhau, wedi eu cwblhau eto. Rydym wedi gofyn i'r SYG egluro rhai o'r pryderon hyn, ac yn edrych ymlaen at dderbyn yr adroddiad diwygiedig a diweddaedig y maent wedi ei gynnig i ni.

### Mater sy'n peri pryder: ein dibyniaeth ar gynhyrchwyr Ystadegau Gwladol

Ar wahân i'n casgliadau cadarnhaol, roedd un neges glir iawn yn dod allan o'r gwaith archwilio cynnar hwn ac o'n ystyriaeth o rai o'r materion penodol a drafodir isod, sef gymaint yr ydym yn dibynnu ar gydweithrediad ac argaeledd staff Ystadegau Gwladol i roi gwybodaeth a deunydd cefndir i'n tîm ysgrifenyddol a/neu i'n ymchwilyr arbenigol.

Mae'n amlwg y bydd yna adegau pan fyddwn yn gofyn i'r Ystadegydd Gwladol wneud gwaith sylweddol mewn meysydd arbennig, a bydd ef yn dweud wrthom nad yw'n cytuno gyda ni o safbwynt blaenoriaeth. Nid hyn sydd gennym dan sylw, ond yr adnoddau prin y mae'n ymddangos sydd ar gael i ateb ein ceisiadau syml am wybodaeth sydd, neu ddylai fod, yn weddol hawdd ei gael. Rydym yn poeni y gallai hyn achosi oedi mawr yn ein gwaith. Gallai hyn olygu bod rhannau o Ystadegau Gwladol yn "eithrio" o'n harchwiliad. Rydym yn fodlon nad hyn oedd y bwriad yn unrhyw rai o'r proseictau a grybwyllwyd uchod, ond mae'n rhaid i ni ddeall na allai hyn byth ddigwydd yn y dyfodol, ac y bydd adnoddau digonol ar gael i ddelio â'n ceisiadau. Rydym yn sylweddoli y gallai hyn olygu, ar ambell achlysur, y bydd angen dynodi bod tipyn o waith i ateb cwestiwn sy'n ymddangos yn syml i ni, ond mae'n rhaid i ni gael gwybod hynny, fel ein bod, lle bo'n addas, yn penderfynu ar ein blaenoriaethau ein hunain. Byddwn yn sicr yn edrych ar y mater hwn o adnoddau yn egniol yn ystod y flwyddyn nesaf.

## Materion eraill a ystyriwyd

Nid oedd ein ystyriaeth, serch hynny, wedi ei gyfyngu i'r archwiliadau oedd wedi eu cynllunio'n benodol. Buom yn ystyried amrywiaeth ehangach o faterion a godwyd gennym ni - yn enwedig yn ail hanner y flwyddyn, wrth i gyfranogwyr ddod yn fwy ymwybodol o'n bodolaeth a'n gwaith. Rydym hefyd wedi bod yn ddiolchgar iawn i'r rheiny sydd wedi tynnu'n sylw at amrywiaeth o bynciau, o driniaeth ystadegol damweiniau ffyrdd yn y gwaith a mynegeion prisiau tai, i'r baich y mae casglu data yn ei osod ar fusnesau. Er nad ydym o reidrwydd wedi cymryd camau penodol ar y rhain i gyd, roeddent o gymorth i ddatblygu'n dealltwriateh o ehangder a dyfnder materion Ystadegau Gwladol.

### Y cyfrifiad

Un o brif weithgareddau Ystadegau Gwladol yn ystod y flwyddyn oedd paratoi ar gyfer cyfrifiad poblogaeth Ebrill 2001. Un gwyn gynnar a wnaed i ni oedd diffyg "blwch ticio" ar gyfer cenedligrwydd Gymreig yng nghyfrifiad Cymru a Lloegr yn Ebrill 2001. Roeddem yn teimlo nad ein lle ni oedd ymyrryd yn y pwnc penodol hwn ar y pryd, ond dyma oedd prif sbardun ein penderfyniad cynnar i gynnal arolygiad o'r cyfrifiad yn fwy eang ar ôl iddo ddigwydd. Bydd yr adolygiad hwn yn edrych ar faterion cenedl ac iaith. Rydym yn ystyried ac yn ymgynghori ar hyn o bryd ynglwn â pha feysydd eraill y dylid eu trafod, ond mae'r ymgeiswyr cryf ar hyn o bryd yn cynnwys:

- llwyddiant y dull "cyfrifiad un rhif" i sicrhau un set o ganlyniadau sicr;
- materion yn ymwneud â'r baich ar gyflenwyr data a pha mor hawdd yr oedd pobl yn gallu llenwi'r ffurflen;
- yn gysylltiedig â hyn, y cydbwysedd rhwng y cyfrifiad fel ffynhonnell uniongyrchol o ddata manwl am y boblogaeth yn gyffredinol, a'r cyfrifiad fel y sail awdurdodedig, neu fframwaith samplo, ar gyfer gwaith manylach wrth samplu a chasgliadau ychwanegol.

### Mynegion a datchwyddwyr prisiau

Rydym yn ymwybodol o nifer o bryderon am fynegeion a datchwyddwyr prisiau, yn cynnwys y rhai a fynegwyd gan Bwyllgor y Trysorlys. Roedd y rhain yn amrywio o faterion technegol iawn yn ymwneud ag addasu prisiau ar gyfer newidiadau ansawdd mewn meysydd fel technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i rôl Canghellor y Trysorlys mewn penderfynu ar gwmpas a diffiniad y Mynegrif Prisiau Adwerthol (RPI). Rydym wedi penderfynu y bydd angen rhoi sylw i'r maes hwn yn y flwyddyn sydd i ddod ac rydym yn gwneud gwaith cwmpasu cychwynnol.

### Nifer y rhai sy'n hawlio budd-daliadau lles

Pwnc arall y tynnwyd ein sylw ato oedd y gwahaniaeth ymddangosiadol rhwng gwybodaeth gan systemau gweinyddol yr Adran Nawdd Cymdeithasol ac arolygon cymdeithasol ar nifer y rhai sy'n hawlio budd-dâl. Nid oeddem wedi'n llwyr argyhoeddi gan farn y sawl a ysgrifennodd atom y gallai hyn gael ei ddatrys drwy ddefnyddio cofnodion budd-dâl i wella fframwiath samplo arolygon cymdeithasol, ond roeddem yn cydnabod bod hwn yn fater pwysig, nid yn unig oherwydd pwysigrwydd y ffigyrau dan sylw, ond hefyd oherwydd ei fod yn berthnasol i rywbeth yr oeddem eisoes wedi ei glustnodi ar gyfer y dyfodol: cryfderau a gwendidau perthynol data gweinyddol a seiliedig-ar-arolwg. Rydym wedi gohirio ystyriaeth lawn nes ein bod yn gallu cymryd i ystyriaeth yr adolygiad ansawdd sydd yn yr arfaeth gan Ystadegau Gwladol ar gysondeb amcangyfrifon cymdeithasol-economaidd, a fydd yn ôl a ddeallwn, yn ymdrin â budd-daliadau cyflogaeth a lles.



## **Ffigyrau swyddi gwag**

Bu rhywfaint o bryder am y rhain, am ansawdd y data ar swyddi gwag a gofrestrwyd gyda'r Gwasanaethau Cyflogaeth Lleol, ac am y graddau y gellir tynnu casgliadau mwy cyffredinol am lefel y swyddi gwag o'r wybodaeth yma, sydd wrth gwrs, ond yn dangos rhan o'r darlun. Mae'r SYG yn gwneud gwaith i gynhyrchu amcangyfrifon rheoliadd sy'n seiliedig ar arolygon anturiaethau. Mae hyn yn dal i fod yn arbrofol, ac nid yw'n ymwneud â'r economi gyfan eto. Rydym yn edrych ymlaen at weld y canlyniadau ac mae'r SYG yn gobeithio y byddant ar gael ar ddiwedd 2001. Byddwn yn ystyried wedyn a oes angen i ni wneud neu gomisiynu gwaith pellach ein hunain.

## **Cyfrifon Gwladol: triniaeth trwyddedau ffônïau symudol**

Roedd y sylw cyntaf a gawsom yn mynegi pryder am driniaeth yr SYG o dderbyniadau o werthiant trwyddedau ffônïau symudol trydydd cenhedlaeth yn y Cyfrifon Gwladol. Roeddem yn sylweddoli bod yr Ystadegydd Gwladol wedi gwneud penderfyniad interim i drin y rhain fel taliadau rhent yn ymestyn dros 20 mlynedd cyn bod y penderfyniad i'w trin fel derbyniadau cyfalaf wedi ei wneud ar lefel Ewropeaidd, ac na fyddai ail lefel o benderfyniad interim cyn cytundeb rhyngwladol llawn yn gwneud synnwyr. Roeddem yn teimlo, fodd bynnag, ei bod yn bwysig bod y driniaeth hon yn cael mwy o sylw yn y cyhoeddiadau perthnasol i gyd. Rydym yn falch o adrodd bod yr Ystadegydd Gwladol wedi cytuno i wneud hynny, er ein bod wedi'n siomi gyda pa mor hir y cymerodd i ddatrys hyn.

## **Yr angen am ddeddfwriaeth ystadegol**

Roedd y *Fframwaith ar gyfer Ystadegau Gwladol* yn cymhell y Comisiwn i adolygu'r angen am ddeddfwriaeth ystadegol ar ôl dwy flynedd, ac adrodd yn ôl i'r Gweinidog dros Ystadegau Gwladol. Er y bydd profiad o'r ddwy flynedd gyntaf o'r trefniadau newydd yn bwysig i'r ystyriaeth hon, mae'n rhaid i ni hefyd gychwyn yn gynnar o ran edrych ar feysydd lle mae'r sail ffeithiol dros ein gwaith yn ddiffygiol.

Roedd y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol wedi cynnig trefnu cyfarfod o arbenigwyr rhyngwladol i roi cyfarwyddyd annibynnol i ni ar rôl a threfniant ystadegau swyddogol ac, wrth dderbyn y cynnig hwn, gofynnwyd iddynt ganolbwyntio'n arbennig ar bersbectif rhyngwladol. Rydym yn edrych ymlaen at y cyfarfod hwn sydd yn cael ei drefnu ar gyfer haf 2001.

Rhoddodd adroddiad Pwyllgor y Trysorlys ar Ystadegau Gwladol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2001, y cyfle i ystyried lle mae'r dadleuon presennol yn sefyll dros ac yn erbyn deddfwriaeth. Daethom i'r casgliad bod y ddadl ar hyn o bryd yn gryf o blaid deddfwriaeth, er ein bod yn sylweddoli bod beth yn union y dylai'r deddfwriaeth honno gynnwys, a sut mae ei gorfodi, angen ystyriaeth ofalus yng ngoleuni profiad y trefniadau newydd.

## **Côd arferion Ystadegau Gwladol**

Os yw'r profiad hwn yn mynd i roi sail cadarn ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol, mae'n bwysig bod y trefniadau newydd yn eu lle yn llawn cyn gynted ag y bo modd. Un rhan hanfodol sydd ar goll o'r fframwaith anstatudol yw côd arferion newydd Ystadegau Gwladol. Nid yw hwn dal wedi ei roi ar waith flwyddyn ar ôl cyflwyno'r Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2000. Rydym yn hynod o siomedig nad yw'r Ystadegydd Gwladol wedi gallu cyhoeddi fersiwn ymgynghorol y côd hwn, ac rydym yn awyddus i'w weld cyn gynted ag y bo modd. Rydym yn poeni am nifer o ddigwyddiadau lle mae gwybodaeth wedi ei "hysbysebu" cyn cyhoeddi, a hyd nes y ceir gweithdrefnau clir yn eu lle credwn bod hyn yn debyg o barhau.

# Rhaglen Lefel Uchel ac Adolygiadau Ansawdd Ystadegau Gwladol

Mae'r gweithdrefnau y mae'r Ystadegydd Gwladol yn eu rhoi ar waith i gynhyrchu rhaglen gydlynol o lefel uchel ar gyfer Ystadegau Gwladol, ac i weithredu strwythur clir ar gyfer sicrhau ansawdd ar draws Ystadegau Gwladol, yn ddatblygiadau pwysig iawn. Nid yw'r rhain wedi eu sefydlu'n llawn eto, ac ni dderbyniom y rhaglen lefel uchel ar gyfer Ystadegau Gwladol mewn pryd i roi sylwadau cyn y cyfnod dan sylw. Mae gennym rai pryderon am y rhaglen, a'r agwedd at gynllunio, yr ydym yn eu codi nawr a byddwn yn rhoi sylwadau llawnach ar hyn yn ein hasesiad o adroddiad blynyddol yr Ystadegydd Gwladol yn yr hydref.

## Adnoddau a dulliau gweithio

Fel unrhyw sefydliad newydd roedd angen i ni roi peth o'n sylw yn y flwyddyn gyntaf i benderfynu sut y byddem yn gweithio, ac i sefydlu'r rhwydwaith fewnol ymarferol i'n galluogi ni i weithredu'n effeithiol. Mae'n prif benderfyniadau ynglwn â sut y dylem weithio wedi eu gosod allan isod.

### Bod yn agored ac yn dryloyw

Roeddem yn sylweddoli y gallem gymryd agwedd ymatebol yn unig at ein dyletswydd i weithredu'n dryloyw, ond penderfynom gymryd yr awenau a defnyddio'n gwefan yn [www.statscom.org.uk](http://www.statscom.org.uk) i'w gwneud yn haws i bobl gael gweld papurau a chofnodion ein cyfarfodydd. Rydym yn ymwybodol, fodd bynnag, bod yn rhaid cadw cydbwysedd rhwng rhoi popeth yr ydym yn ei dderbyn neu'n ei gynhyrchu ar y we, a rheoli swm y deunydd, fel bod y rhan fwyaf o'r hyn y mae pobl eisiau ei weld yno. Rhaid iddynt gael gwybod hefyd bod croeso iddynt gael copïau o bethau eraill. Efallai nad yw'r cydbwysedd yn iawn gennym eto, ond rydym yn ceisio rhoi ystyriaeth i unrhyw ymateb wrth i ni ei dderbyn.

### Cael gafael ar ymchwil

Mae gennym amrywiaeth o brofiad sy'n berthnasol i gasglu a defnyddio ystadegau, ac mae gennym ddau ystadegydd proffesiynol yn ein ysgrifenyddiaeth fach, ond, os ydym am siarad yn awdurdodol ar faterion technegol cymhleth, bydd angen i ni gael mynd at amrywiaeth eang o gyngor arbenigol ar faterion penodol. Penderfynom, felly, yn hytrach nag adeiladu ysgrifenyddiaeth dechnegol fwy, y dylem fod yn barod i wneud y defnydd gorau o arbenigwyr allanol ar sail prosiect-benodol. Nid yw'n strategaeth ymchwil wedi ei datblygu'n llawn eto, ond rydym eisoes wedi comisiynu un arbenigwr academiaidd i wneud astudiaeth gwmpas ar ddefnydd yr SYG o addasu tymhorol, ac yn cynllunio i wneud defnydd sylweddol o arbenigwyr methodolegol a phwnc ar gyfer astudiaethau unigol yn y dyfodol.

### Cyfarfodydd a ffyrdd o weithio

Rydym wedi cyfarfod bum gwaith rhwng Medi 2000 a Mawrth 2001 ac yn cynllunio i gyfarfod yn ffurfiol 6 gwaith y flwyddyn yn y dyfodol. Rhwng cyfarfodydd rydym yn symud ymlaen mewn amrywiol ffyrdd: yn unigol ac mewn grwpiau, yn gweithio gyda ac yn llywio'n ysgrifenyddiaeth fach ar brosiectau penodol; er enghraifft bu un comisiynydd a'n prif weithredwr yn gweithio gyda'i gilydd ar yr astudiaeth gwmpas ar fonitro Cynllun Canser yr NHS.

### Cyllid



Ym amodol ar angen, bydd cyllid o hyd at £1.35 miliwn y flwyddyn ar gael i'r Comisiwn yn y blynyddoedd cyntaf. Yn y flwyddyn gyntaf, fodd bynnag, gwelwyd bod yr union daliadau dipyn yn llai nag a ragwelwyd, er bod costau mawr wedi crynhoi, er enghraifft costau llety cyfalaf a chyfredol . Roedd y prif gostau eraill yn cynnwys staffio, systemau TG mewnol a sefydlu'n gwefan. Yn 2001-02, ein blwyddyn lawn gyntaf, bydd y cydbwysedd yn newid, gyda chostau staffio a rhai perthynol a gwaith ymchwil ac archwilio a gomisiynwyd yn allanol yn debygol o gyfrif am y gwariant mwyaf.

## Staff

Ar hyn o bryd mae gan y Comisiwn staff o chwech. O'r rhain, mae pedwar wedi eu secondio o adrannau llywodraeth, ac roedd un o'r rhain o'r sector preifat yn dilyn cystadleuaeth agored, ac mae dau yn gweithio dros-dro tra bod anghenion staffio tymor hir yn cael eu gwerthuso'n iawn.

## Golwg ymlaen

Bydd nifer o'r materion penodol a drafodwyd uchod yn parhau i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd. Er enghraifft, fel y crybwyllwyd uchod, rydym yn ymgynghori ar y meysydd y byddwn yn ymdrin â hwy yn ein hadolygiad o'r cyfrifiad, ac yn parhau â'r gwaith ar addasu tymhorol a monitro cynllun canser yr NHS. Er bod y tri phwnc penodol yma yn bwysig, mae yna dri mater sy'n clymu pob peth ac a fydd yn fwyaf pwysig yn y flwyddyn i ddod:

- sicrhau, yn ei ail flwyddyn, bod system gynllunio Ystadegau Gwladol yn gweithio'n iawn;
- ystyriaeth lawnach o'r achos dros, a natur posibl, deddfwriaeth ystadegol;
- rhoi sylwadau ar fersiwn ymgynghorol côd arferion Ystadegau Gwladol, sydd, fel y dywedasom, ar ôl ei amser ac ni ddylai gael ei oedi ragor.

# Rhestr dermau

## Grwpiau ac ymdriniaeth ystadegau

**Ystadegau Gwladol** – ar hyn o bryd y cynhyrchion sy'n cael eu rhestri yn y daflen gwmpas wreiddiol a ddsbarthwyd gyda'r *Fframwaith ar gyfer Ystadegau Gwladol*. Maent yn amodol ar y polisiâu a'r trefniadau a amlinellwyd yn y ddogfen honno a byddant yn dod o dan Gôd Arferion Ystadegau Gwladol

**Cwmpas (Ystadegau Gwladol)** – yr ystod o ganlyniadau a ddynodwyd gan Weinidogion i'w cynnwys mewn Ystadegau Gwladol. Bydd yn datblygu dros amser.

**Ystadegau'r llywodraeth** - y rheiny sy'n cael eu cynhyrchu gan, neu o dan reolaeth, aelodau o Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS). Yn ogystal â'r Ystadegau Gwladol a gynhyrchir gan y GSS, bydd ystadegau llywodraeth yn cynnwys cynhyrchion GSS eraill nas cynhwysir yng nghwmpawd Ystadegau Gwladol, a dadansoddiad ystadegol sy'n cael ei ddefnyddio mewn llywodraeth ond ddim ei gyhoeddi. Mae holl ystadegau'r llywodraeth yn cael eu rheoli gan *God arferion ystadegau swyddogol* sydd eisoes yn bodoli a gan safonau proffesiynol eraill a hyrwyddwyd gan y GSS.

**Ystadegau swyddogol** - cynnyrch ystadegol a baratowyd gan neu at ddiben llywodraeth. Byddai hyn yn cynnwys Ystadegau Gwladol a chynhyrchion GSS eraill, ond gallai hefyd gynnwys ystadegau adrannol a gyhoeddwyd a gynhyrchwyd gan swyddogion nad ydynt yn rhan o'r GSS, yn ogystal ag ystadegau a gynhyrchwyd gan gyrff cyhoeddus eraill.

## Nodweddion cyffredinol ystadegau a systemau ystadegol

**Integriti** – mae'r term hwn yn cael ei ddefnyddio gan y Comisiwn yn ystyr culach o annibyniaeth a rhyddid rhag ymyrraeth. (Mae weithiau'n cael ei ddefnyddio gan eraill i gynnwys agweddau o ansawdd a chyflawnder hefyd.)

**Ansawdd** – bod yn ddigon cywir ar gyfer y diben y maent yn cael eu defnyddio ac yn seiliedig ar y fethodoleg orau sydd ar gael. (Weithiau'n cael ei ddefnyddio gan eraill hefyd i gynnwys agweddau o berthnasedd ac amseroldeb.)

**Dibynadwy** – yn rhoi argraff (ar sail dda) o integriti ac ansawdd.

**Amseroldeb** – cael eu cynhyrchu i amserlen sy'n addas i'w diben(ion).

**Perthnasedd** – y graddau y mae cynnyrch yn edrych ar y cwestiynau pwysig.

**Dilysrwydd** – a yw amcangyfrif yn mesur yr hyn y'i bwriadwyd i'w fesur; yn ymwneud â gwahaniaethau cysyniadol yn ogystal â gwallau mesur.

**Dibynadwyedd** – mae'r term hwn yn cael ei ddefnyddio gan y Comisiwn mewn ystyr cyffredinol iawn i gynnwys pob agwedd o gywirdeb a dilysrwydd (ddim yn yr ystyr mwy penodol o atgynrychioldeb a ddefnyddir mewn lluniadu agwedd).

**Cywirdeb**– y cyfuniad o fanylder a'r raddfa o fod yn ddiuedd.

**Tuedd** - pa mor bell y mae cyfartaledd amcangyfrif yn gorwedd o wir werth yr hyn mae'n amcangyfrif.

**Manylder** – y graddau y disgwylir i werth amcangyfrif fod yn agos i'r cyfartaledd gwaelodol.

## Prosesau

**Asesu ansawdd** – gweld a yw data yn cwrdd â safonau ansawdd priodol.

**Sicrhau ansawdd** – gwneud yn siwr bod y data yn cwrdd â safonau ansawdd priodol.

**Archwiliad ystadegol** – gwerthusiad o'r prosesau a ddefnyddiwyd i grynhoi a chynhyrchu set arbennig o ystadegau.

**Ymgynghoriad defnyddiwr** – cael gwybod gan ddefnyddiwr pa fath o ystadegau y maent eisiau/angen a beth yw eu barn am y rhai maent yn eu derbyn.

**Ymateb defnyddwyr** – (gweler hefyd perthnasedd) gwneud a gweithredu ar ganlyniadau ymgynghoriad defnyddwyr

## Swyddogaethau

**Defnyddwyr** – unigolion a sefydliadau sy'n gwneud defnydd o ystadegau.

**Darparwyr** – y rheiny sy'n darparu data crai, er enghraifft drwy lenwi holiaduron, cymryd rhan mewn arolygon neu anfon gwybodaeth i mewn am eu busnesau.

**Cyflenwyr** – fel ar gyfer darparwyr.

**Cynhyrchwyr** – y rheiny sy'n cynhyrchu ystadegau o ddata crai, er enghraifft staff SYG.

**Pennaeth Proffesiwn** – yr uwch unigolyn penodedig sy'n gyfrifol i'r Ystadegydd Gwladol am integriti proffesiynol cynnyrch adrannau llywodraeth a chyrrff perthynol sy'n cynhyrchu Ystadegau Gwladol neu ystadegau swyddogol, neu sydd â grwp o ystadegwyr swyddogol.

## Arall

**Costau cydymffurfio** – faint o amser, arian ac adnoddau eraill sydd angen i ddarparu'r data crai y mae ystadegau yn cael eu crynhoi ohono.

**Arferion rhyddhau** – sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud am ba ddata i'w ryddhau i bwy a phryd.

**Data crai** – y dychweliadau unigol a'r holiaduron a lenwyd y mae ystadegau yn cael eu cynhyrchu ohonynt.

Designed and produced by Manor Creative, Eastbourne

Printed in the UK for The Stationery Office Limited  
On behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office  
Dd 5070048/07/01



**Published by The Stationery Office Limited**

and available from:

**The Stationery Office**

(Mail, telephone and fax orders only)

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

General enquiries 0870 600 5522

Order through the Parliamentary Hotline *Lo-call* 0845 7 023474

Fax orders 0870 600 5533

Email [book.orders@theso.co.uk](mailto:book.orders@theso.co.uk)

Internet <http://www.clicktso.com>

**The Stationery Office Bookshops**

123 Kingsway, London WC2B 6PQ

020 7242 6393 Fax 020 7242 6394

68-69 Bull Street, Birmingham B4 6AD

0121 236 9696 Fax 0121 236 9699

33 Wine Street, Bristol BS1 2BQ

0117 9264306 Fax 0117 9294515

9-21 Princess Street, Manchester M60 8AS

0161 834 7201 Fax 0161 833 0634

16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD

028 9023 8451 Fax 028 9023 5401

The Stationery Office Oriel Bookshop

18-19 High Street, Cardiff CF1 2BZ

029 2039 5548 Fax 029 2038 4347

71 Lothian Road, Edinburgh EH3 9AZ

0870 606 5566 Fax 0870 606 5588

**The Parliamentary bookshop**

12 Bridge Street, Parliament Square

London SW1A 2JX

Telephone orders 020 7219 3890

General enquiries 020 7219 3890

Fax orders 020 7219 3866

**Accredited Agents**

(see Yellow Pages)

and through good booksellers

